# Y Pwyllgor Deisebau

**PET(3)03-07 (p5): 4 Hydref 2007**

## Deiseb: Y Mesur Gofalwyr Ifanc (Adnabod a Chymorth)

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb atodol, a gyflwynwyd gan Mr Barrie W Cooper, ar ran Rhwydwaith Pencampwyr Gofalwyr Ifanc Clybiau Rotari Caerdydd.Mae'r ddeiseb ar gael fel atodiad i'r papur hwn.

### Cefndir

Mae'r deisebwyr yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi cyfrifoldeb penodol ar awdurdodau lleol i adnabod ac i gefnogi gofalwyr ifanc. Maent yn awgrymu mai cynnwys pennod arbennig ar y pwnc ym Mesur arfaethedig y Cynulliad ar fynd i'r afael â Thlodi Plant a Helpu Plant sy'n Agored i Niwed fyddai'r ffordd orau o gyflawni hyn. Cafwyd 10 o lofnodion i gefnogi'r ddeiseb.

### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb a phenderfynu pa gamau i'w cymryd. Gwasanaeth y PwyllgorauMedi 2007